



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Rheoliadau Adeiladu (Cymru)

Cylchlythyr

Rhif y Cylchlythyr:		Dyddiad cyhoeddi:	DD / MM / BBBB
Statws:			
Teitl:			
Cyhoeddwyd gan:			
Cyfeiriwyd at:	Anfonwch ymlaen at:		
Crynodeb:			
I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:			
	Llinell Uniongyrchol:		
	E-bost:		
	Gwefan:		

DEDDF ADEILADU 1984

RHEOLIADAU ADEILADU 2010

RHEOLIADAU ADEILADU (AROLYGWYR CYMERADWY ETC.) 2010

- **DIWYGIADAU I OFYNIION EFFEITHLONRWYDD YNNI RHEOLIADAU ADEILADU 2010**
- **DOGFENNAU CYMERADWY DRAFFT NEWYDD L1A, L1B, L2A a L2B**
- **CANLLAW CYDYMFFURFIO NEWYDD AR WASANAETHAU ADEILADU DOMESTIG**
- **CANLLAW CYDYMFFURFIO NEWYDD AR WASANAETHAU ADEILADU ANNOMESTIG**

1. Mae Gweinidogion Cymru wedi gofyn i mi dynnu eich sylw at Reoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2014 O.S. 2014/110 (CY. 10) ("y Rheoliadau diwygio"), a wnaed ar 22 Ionawr 2014. Daw'r Rheoliadau diwygio i rym ar 31 Gorffennaf 2014 a byddant yn gymwys i **Gymru**.
2. Mae Gweinidogion Cymru hefyd wedi gofyn i mi dynnu eich sylw at Ddogfennau Cymeradwy drafft newydd L1A, L1B, L2A, L2B a Chanllawiau Cydymffurfio drafft newydd ar Wasanaethau Adeiladu Domestig ac Annomestig. Mae'r Dogfennau Cymeradwy drafft wedi cael eu cyflwyno gerbron y Comisiwn Ewropeaidd, yn unol â Chyfarwyddeb Rheoliadau a Safonau Technegol 98/34/EC. Cyhoeddir Cylchlythyr arall mewn perthynas â'r Dogfennau Cymeradwy drafft ym mis Mai 2014.
3. Yn unol ag adran 14(7) o Ddeddf Adeiladu 1984, cafodd y Rheoliadau diwygio eu gwneud ar ôl ymgynghori â Phwyllgor Cynghori Rheoliadau Adeiladu Cymru a chyrrff eraill sy'n cynrychioli'r buddiannau dan sylw.
4. Diben y Cylchlythyr hwn yw:
 - tynnu sylw at y diwygiadau i Reoliadau Adeiladu 2010 ("y Rheoliadau adeiladu") a Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010 ("Rheoliadau AC").
 - tynnu sylw at y Dogfennau Cymeradwy drafft.

CYMHWYSO'R RHEOLIADAU DIWYGIO

5. Nid yw'r newidiadau a wnaed gan y Rheoliadau diwygio yn gymwys yn Loegr nac i adeiladau ynni a eithrir yng Nghymru.

DIWYGIADAU I OFYNIION EFFEITHLONRWYDD YNNI RHEOLIADAU ADEILADU 2010

6. Mae Atodiadau A a B i'r cylchlythyr hwn yn crynhoi'r holl newidiadau a wnaed i'r Rheoliadau adeiladu a Rheoliadau AC.

RHEOLIADAU ADEILADU 2010

7. Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau diwygio yn ategu rheoliad 21(4) o'r Rheoliadau adeiladu ac yn ehangu'r gofynion o ran effeithlonrwydd ynni yn y Rheoliadau adeiladu i heuldy neu bortsh lle gosodwyd offer gwresogi parhaol er mwyn cynhesu'r heuldy neu'r portsh.
8. Mae rheoliad 5 o'r Rheoliadau diwygio yn mewnosod rheoliad newydd 25C yn y Rheoliadau adeiladu sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i gymeradwyo cyfraddau defnyddio ynni sylfaenol targed ar gyfer adeiladau newydd (heblaw am anheddau newydd) a gwerthoedd targed o ran perfformiad ffabrig ar gyfer anheddau newydd.
9. Mae rheoliad 5 o'r Rheoliadau diwygio yn mewnosod rheoliadau newydd 26A a 26B yn y Rheoliadau adeiladu sy'n nodi na chaiff adeiladau newydd (heblaw am anheddau newydd) ragori ar y cyfraddau defnyddio ynni sylfaenol targed ac na chaiff anheddau newydd ragori ar y gwerthoedd targed o ran perfformiad ffabrig ychwaith.
10. Mae rheoliad 7 o'r Rheoliadau diwygio yn mewnosod rheoliadau newydd 27A a 27B yn y Rheoliadau adeiladu sy'n amlinellu'r weithdrefn i'w dilyn ar gyfer cyflwyno tystiolaeth yn ymwneud â'r gyfradd defnyddio ynni sylfaenol darged a'r gwerthoedd targed o ran perfformiad ffabrig i'r awdurdod lleol.
11. Mae rheoliad 8 o'r Rheoliadau diwygio yn cymryd lle rheoliad 28 (Gwelliannau canlyniadol i berfformiad ynni) o'r Rheoliadau adeiladu er mwyn ategu ac ehangu gofynion penodol i adeiladau â chyfanswm arwynebedd llawr defnyddiol o dan 1000m².
12. Mae rheoliad 9 o'r Rheoliadau diwygio yn diwygio rheoliad 47 (Torri rheoliadau penodol yn peidio â bod yn drosedd) o'r Rheoliadau adeiladu i gynnwys rheoliadau newydd 27A a 27B.

RHEOLIADAU ADEILADU (AROLYGWYR CYMERADWY ETC.) 2010

13. Mae rhan 3 o'r Rheoliadau diwygio yn diwygio Rheoliadau AC. Mae'r diwygiadau a wnaed yn ofynnol o ganlyniad i'r diwygiadau i'r Rheoliadau adeiladu.

DOGFENNAU CYMERADWY NEWYDD L1A (2014), L1B (2014), L2A (2014) a L2B (2014)

14. Mae Dogfennau Cymeradwy yn rhoi canllawiau statudol ar ofynion y Rheoliadau adeiladu. Bwriedir i fersiynau 2014 o'r Dogfennau Cymeradwy o ran "Arbed Ynni a Thanwydd" ddod i rym ar 31 Gorffennaf 2014 a chaiff fersiynau blaenorol o Ddogfennau Cymeradwy eu dileu ar y dyddiad hwn.

DARPARIAETHAU TROSIANNOL

15. Mae rheoliad 10 o'r Rheoliadau diwygio yn cynnwys darpariaethau trosiannol.

YMHOLIADAU

16. Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y Cylchlythyr hwn at:

Colin Blick,
Rheoliadau Adeiladu,
Llywodraeth Cymru,
Rhyd-y-car,
Merthyr Tudful,
CF48 1UZ.

Ffôn: 03000 628144

E-bost: Colin.Blick@wales.gsi.gov.uk.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Francois Samuel'. The signature is written in a cursive style with a large initial 'F' and 'S'.

Francois Samuel
Pennaeth Rheoliadau Adeiladu

Atodiad A

Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2014 O.S. 2014/110 (CY. 10)

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r holl newidiadau a wneir gan O.S. 201410 i Reoliadau Adeiladu 2010:

O.S. 2010/2214 Rhif y Rheoliad	O.S. 2014/110 (CY. 10) Rhif y Rheoliad	Cam Gweithredu
2(1)	3	<u>Dehongliad.</u> Diwygio'r diffiniad o "energy efficiency requirements" i gynnwys rheoliadau newydd 26A a 26B.
21(4)(a)	4(a)	<u>Cymhwyso gofynion effeithlonrwydd ynni.</u> Dileu'r gair "or" ar ddiwedd paragraff 4(a).
21(4)(b)	4(b)	<u>Cymhwyso gofynion effeithlonrwydd ynni.</u> Mewnosodir "to heat the conservatory or porch" yn dilyn "extended" ym mharagraff (4)(b).
21(4)(c)	4 (b)	<u>Cymhwyso gofynion effeithlonrwydd ynni.</u> Mewnosod rheoliad newydd 21(4)(c) yn y Rheoliadau adeiladu sy'n ehangu'r gofynion o ran effeithlonrwydd ynni yn y Rheoliadau adeiladu i heuldy neu bortsh lle y gosodwyd offer gwresogi parhaol er mwyn cynhesu'r heuldy neu'r portsh.
25(C)	5.	<u>Adeiladau newydd: gofynion perfformiad ynni sylfaenol.</u> <u>Mewnosod Rheoliad newydd 25C yn y Rheoliadau adeiladu sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i gymeradwyo cyfraddau defnyddio ynni sylfaenol targed ar gyfer adeiladau newydd (heblaw am anheddau newydd) a gwerthoedd targed o ran perfformiad ffabrig ar gyfer anheddau newydd.</u>
26A a 26B	6	<u>Cyfraddau defnyddio ynni sylfaenol a gwerthoedd perfformiad ffabrig.</u> Mewnosod Rheoliadau newydd 26A a 26B yn y Rheoliadau adeiladu sy'n nodi na chaiff adeiladau newydd (heblaw am anheddau newydd) ragori ar y cyfraddau defnyddio ynni sylfaenol targed ac na chaiff anheddau newydd ragori ar y gwerthoedd targed o ran perfformiad ffabrig ychwaith.

27A a 27B	7	<u>Cyfrifo cyfraddau defnyddio ynni sylfaenol a gwerthoedd perfformiad ffabrig. Mewnosod Rheoliadau newydd 27A a 27B yn y Rheoliadau adeiladu sy'n amlinellu'r weithdrefn i'w dilyn ar gyfer cyflwyno tystiolaeth yn ymwneud â'r gyfradd defnyddio ynni sylfaenol darged a'r gwerthoedd targed o ran perfformiad ffabrig i'r awdurdod lleol.</u>
28	8	<u>Gwelliannau canlyniadol i berfformiad ynni. Disodli rheoliad 28 o'r Rheoliadau adeiladu er mwyn ategu ac ehangu gofynion penodol i adeiladau â chyfanswm arwynebedd llawr defnyddiol o dan 1000m².</u>
47	9	<u>Torri rheoliadau penodol yn peidio â bod yn drosedd. Diwygio rheoliad 47 o'r Rheoliadau adeiladu i gynnwys cyfeiriad at reoliadau newydd 27A a 27B.</u>
-	10	<u>Darpariaethau Trosiannol. Amlinellu'r darpariaethau trosiannol ar gyfer y rheoliadau diwygio.</u>

Atodiad B

Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2014

O.S. 2014/110 (CY. 10)

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r holl newidiadau a wneir gan O.S. 2014/110 i Reoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010

O.S. 2010/2215 Rhif y Rheoliad	O.S. 2014/110 (CY. 10) Rhif y Rheoliad	Cam Gweithredu
8(1)	12	<u>Swyddogaethau arolygwyr cymeradwy</u> Diwygio rheoliad 8(1)(a) i gynnwys cyfeiriad at Reoliadau newydd 26A a 26B. Diwygio Rheoliad 8(1)(b) i gynnwys cyfeiriad at Reoliadau newydd 27A a 27B.
20	13	Diwygio Rheoliad 20(1) i gynnwys cyfeiriad at Reoliadau newydd 27A a 27B. Mewnodd paragraffau newydd (2A) a (2B) i ddarparu ar gyfer yr effaith ar Reoliadau newydd 27A a 27B os daw hysbysiad cychwynnol i ben.

Cyhoeddiadau

Mae Dogfennau Cymeradwy Drafft L1A (2014), L1B (2014), L2A (2014) a L2B (2014) **ar gyfer Cymru** ar gael yn:

<http://wales.gov.uk/topics/planning/buildingregs/publications/?skip=1&lang=cy>

Mae Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2014 O.S. 2014/110 (CY. 10) ar gael yn:

<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/110/contents/made>

Mae'r Canllawiau Cydymffurfio Drafft ar Wasanaethau Adeiladu mabwysiedig Domestig ac Annomestig, i'w defnyddio yng Nghymru, ar gael yn:

www.planningportal.gov.uk/buildingregulations/approveddocuments/part/changes